

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Chwefror 23ain 2015 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **02/15 PRESENNOL:** Cynghorwyr: Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Christopher Jones, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng.Sir - K Howell, Cyfieithydd.
2. **02/15 HEDDLU:** Ymddiheiriad. – Derbyniodd y Clerc e-bost yn nodi yr hyn a wnaed ar y materion yn codi mis diwethaf – Llinellau melyn ger ysgol Penboyr – yr heddlu yn cadw llygad ond heb weld neb eto. Fan yn parcio tu allan i Pleasant View, Waungilwen – yr heddlu wedi siarad a'r perchennog. Ceir yn parcio ar y llinellau melyn tu allan i Ysgol Bryn Saron – yr heddlu yn monitro'r sefyllfa.
3. **02/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Nesta Jones, Mary Phillips.
4. **02/15 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ionawr 26ain 2015 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. C Jones
Eilydd – Cyng. M Rees
5. **02/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyllid – Cyng D Evans, D Smith
6. **02/15 MATERION YN CODI :**
 - 12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – oherwydd amgylchiadau teuluol doedd Cyng C Roberts ddim wedi cael cyfle i wneud dim ymhellach.
 - 12.v.05/14 Arwydd Cyflymder 30mya ym Mhentreccagal – Clerc wedi cael gwybodaeth bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth.
 - 12.ii.11/14 a) Bin Spwriel i'r Arosfan Bws – dwedodd y Clerc bod hwn mewn lle
 - 12.i.01/15 a) Datblygiad arfaethedig Pont Tyweli – dwedodd y Clerc bod cais amlinellol am 10 tŷ wedi ei roi mewn ym mis Awst 2014 a bod trafodaethau yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ynghylch cynnwys tai fforddiadwy. Does dim penderfyniad wedi ei wneud eto.
 - b) Goryrru ym Mhont Tyweli –
 - 12.ii.01/15 Arwydd VAS ym Mhentreccawl – wedi ei drwsio
 - 12.i.01/15 Lamp Maes yr Ywen – postyn newydd wedi ei roi ond heb ffitio lamp newydd.
7. **02/15 GOHEBIAETH:**
 - i. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – wedi ei gylchlythyru fel e-bost hefyd – Cylchlythyr Cymunedau Mwy Diogel
 - ii. CSG – Côt Ymddygiad – nodi y cynhelir dau gyfarfod yn y Cyngor Sir yn y dyfodol
 - iii. CSG – Adolygiad Gwariant trydydd sector yr Awdurdod gan Llywodraeth Cymru – ar gyfer Sir Gâr gostyngiad o 3.3% hy. £45miliwn dros y 3 mlynedd nesaf
 - iv. e-bost – Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned – Cyng J Crossley i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor hwn
 - v. e-bost – Penodi Aelodau i'r Cyngorau Iechyd Cymuned – cylchlythyrwyd
 - vi. e-bost – 'Home Start' Caerfyrddin-Llanelli – cylchlythyrwyd
 - vii. e-bost – ULIC – Hyfforddiant Mawrth – cylchlythyrwyd
 - viii. e-bost – Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori - Datganoli Trethi i Gymru – Treth – cylchlythyrwyd
 - ix. e-bost – Llywodraeth Cymru - Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol <http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy> – cylchlythyrwyd
 - x. CSG – Adolygiad o Eiddo Gwag y Sector Preifat yn Sir Gaerfyrddin - holiadur
 - xi. Sefydliad Aren Cymru – 2015 Taith dros Fywyd ar 26/04/15
 - xii. ULIC – Drafft Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol Arfaethedig 2015-2019 – cylchlythyrwyd
 - xiii. Cylchgrawn – Yr Ardd
 - xiv. e-bost – Cyngor Ceredigion – Ymgynghori ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)
 - xv. e-bost – ULIC – Lansio Gwefan Newydd Un Llais Cymru
 - xvi. CSG – Amnesti Gwastraff Mart CNE 4/03/15 8yb – 1yp – Clerc i ysgrifennu yn canmol y fenter

8. 02/15 CYNLLUNIO

Caniatâd

- W/31037 – Gillian Bennison, Plot cyfagos i Bendith, Rhos SA44 5EF – adnewyddiad o gais cynllunio amlinellol W/10528 [adnewyddwyd dan cais W/25461]
- W/31188 – Cartrefi Eion Homes Cyf – Marc Lewis – tir cyfagos i Rhosmaen, Rhos SA44 5AF – materion ar gadw i ganiatâd cynllunio W/27940 - plot preswyl arfaethedig gyda gweithdy fframwaith coed at ddefnydd masnachol ac amaethyddol ar gyfer preswylfa menter gwledig
- W/31297 – Mr&Mrs Paul Gurney, Plot cyfagos a Courtyard House, The Courtyard, Dolwerdd, Pentrecagal, SA38 9HX
- W/31410 – Mr&Mrs James, 1 Heol y Dderwen, Pont Tweli SA44 4RW – Cyntedd i ffrynt yr eiddo
- W/31431 – Mr John Griffiths, tir cyffiniol â Dolwerdd, Drefach-Velindre SA44 5UG – codi amodau 5-7 ar W/248639 (cartref cynaliadwy) ac amrywiaeth o amod 3(estyniad amser)

Cais Ymgynghori llawn

W/31496 – Mr & Mrs Roy Lewis, tir yn Cefn Plas, Saron SA44 5DX – annedd, tai mas a hyweddi

W/31521 – Cartrefi Einon Homes – Marc Lewis, land adjacent to Rhosmaen – codi amodau 4,5,6[cod 3 dim angen bellach trwy ddeddfwriaeth]

W/31544 – Steven Harwood, Pantyfedwen, Drefelin SA44 5XB – adeiladu ‘stafell ardd ar ben garej sy’n cefni a gardd fryn

9. 02/15 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 23/02/2015£60.90
- ii. HIRIO NEUADD yr EGLWYS PENBOYR – cyfarfod 26/01/15£8.25
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. SWALEC [Golau Nadolig]£167.82
- iv. CCC [Goleuo Llwybrau]£17,590.15
- v. OVW Aelodaeth£438.00
- vi. CSG[Seminar Cynllunio]£15.00
- vii. DILWYN SMITH (Norton Anti Virus)£30.00

Arian yn y Banc ar 09/02/2015.....£27,599.55

b. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Cruse Gofal Mewn Galar - nodwyd

Sioe Llandysul - £100

10. 02/15 ADRODDIAD PWYLLGOR

Fforwm – mynychodd Cyng J Crossley y cyfarfod, soniodd am y toriadau y byddai'r Cyngor Sir yn gorfod gwneud yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod

11. 02/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Cadwyn y Cadeirydd – Cyng J Wigley wedi gwneud ymholiadau ac amlinellodd yr hyn roedd y Cwmni o Narberth yn gwneud allan o ffibr gwydrog – gofynnwyd iddo ddod a sampl i'r cyfarfod nesaf.

12. 02/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng B Jones a) a oes modd cael arwydd bod troad i'r dde cyn dod i'r maes carafanau ym Mhentrecagal, gan bod damwain wedi digwydd yno yn ddiweddar – Cyng K Howell i wneud ymholiadau.
b) sbwriel ofnadwy ar yr hewl o Henllan i Bentrecagal.
c) dwedodd bod cyfarfod dydd Gwener 27/02/15 ynghylch hysbysfwrdd Pentrecwrt i goffau T Llew Jones – trafodwyd lleoliad[cymryd cyngor y Cyngor Sir am sgwâr Pentrecwrt] a cais cynllunio i'r bwrdd[y Cyngor i wneud hyn ond nid i dalu am y cais]
- ii. Cyng D Evans – loriau mawr yn dal i fynd lawr am Drefelin o'r cyffordd ochr uchaf i ysgol Bryn Saron.
- iii. Cyng I Davies – a) sbwriel ar balmentydd y pentref yn wael – Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir
b) sbwriel o Pantybarcud i bentref Felindre – fel uchod
- iv. Cyng J Ayres – cyffordd Henllan o Felindre – person wedi ceisio troi i'r dde am Saron a bron achosi damwain Cyng K Howell a'r Clerc i wneud ymholiadau i'r adran drafnidiaeth ynghylch cael rhyw arwydd yma.
- v. Cyng J Wigley – a) ar ôl y glaw dŵr yn dod o gaeau Llysnewydd.
b) ffos ger Dolhaid yn llawn ac arwynebedd yr hewl yn yr un man yn anwastad iawn – K Howell a'r Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.
c) mainc gyhoeddus yn y clawdd yng Nghwmhiraeth
- vi. Cyng J Crossley – sbwriel ar yr hewl am Penllwyn, Waungilwen
- vii. Cyng K Howell – Blychau Halen yn yr ardal wedi eu llenwi a twmpathau o halen wedi ei gadael wrth ochr yr hewl hefyd.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Mawrth 30ain 2015, am 7.30y.h yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

